# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy’n Bresennol:** **Dydd Mercher, 9 Mehefin 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.E.Freeguard** |
| **Cynghorwyr**: | N.T.Hunt, S.K.Hunt, D.Keogh, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, S.Paddison, S.M.Penry, S.H.Reynolds, R.L.Taylor, A.N.Woolcock a/ac W.F.Griffiths |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, N.Pearce, H.Jenkins, C.Griffiths, S.Brennan, L.Willis, C.Plowman a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, M.Harvey, D.Jones, L.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, A.Wingrave, D.Cawsey a/ac S.Pursey |

## 1. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda'r Cabinet:

Cronfa Codi'r Gwastad y DU - cynigion prosiect Castell-nedd Port Talbot

Rhoddwyd diweddariad a chyflwyniad i'r aelodau ar y pecyn arfaethedig o gynigion ar gyfer etholaethau Castell-nedd ac Aberafan er mwyn cyflwyno cais am gyllid gan Gronfa Codi'r Gwastad y DU i Lywodraeth y DU.

Mynegodd yr aelodau eu pryderon ynghylch darparu Cronfa Codi'r Gwastad y DU, fodd bynnag roeddent yn croesawu'r cynnig am gyllid.

Cafwyd trafodaethau ynghylch cau banciau ar draws y DU a p'un a oedd y cyngor mewn sefyllfa i atal adeiladau banciau rhag cael eu

prynu drwy ddefnyddio'r grant eiddo masnachol, a'u defnyddio at ddibenion eraill gan fod hen fanciau yn adeiladau pwysig yn y gymuned.

Soniwyd bod trafnidiaeth yn flaenoriaeth a bod swyddogion yn cydnabod bod trafnidiaeth yn hollbwysig i sicrhau bod cysylltedd ar gyfer twristiaeth a chyflogaeth. Nodwyd bod swyddogion yn archwilio ffyrdd o wneud trafnidiaeth gymunedol yn fwy cynaliadwy dan y gronfa hon.

Cafwyd trafodaethau am amserlenni cynhyrchu ceisiadau ar gyfer y cais, a nodwyd bod y broses o gasglu a chynhyrchu'r ceisiadau yn un gyflym iawn. Awgrymwyd yn y dyfodol y byddai angen cynyddu nifer y timau sy'n paratoi ceisiadau er mwyn helpu i ddatblygu'r cynigion wrth wynebu amserlenni byr iawn.

Roedd yr aelodau'n awyddus i weld budd go iawn ac effaith gadarnhaol i'r cymoedd yn dilyn derbyn buddsoddiad Cronfa Codi'r Gwastad y DU.

Gofynnodd yr aelodau am esboniad ynghylch yr hyn a olygir gan gynnwys y cyngor fel Awdurdod Lleol Categori 1 ym meini prawf Cronfa Codi'r Gwastad y DU. Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn darparu gwybodaeth y tu hwnt i'r cyfarfod ynghylch sut mae Castell-nedd Port Talbot yn rhan o Gategori 1.

Roedd yr aelodau eisiau eglurder mewn perthynas â chyfranogaeth ysgolion cymunedol yn y broses ymgynghori. Esboniodd swyddogion nad oedd digon o amser wedi bod i ymgynghori â phawb, fodd bynnag amlygwyd bod nifer o randdeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw, megis ASau Castell-nedd ac Aberafan, cynrychiolwyr y Sector Preifat a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Canmolodd yr aelodau y tîm am eu gwaith caled i gyflwyno'r cynigion o fewn amserlenni mor dynn.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

## 2. <u>BLAENRAGLEN WAITH</u>

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

**CADEIRYDD**